BWRDD LLEOL

DIOGELU PLANT

WRECSAM

ADOLYGIAD ACHOS DIFRIFOL AR BLENTYN 2

CRYNODEB GWEITHREDOL

MAI 2009

RHAGAIR

Bwrdd Lleol Diogelu Plant Wrecsam sy'n cyhoeddi'r adroddiad hwn. Grŵp amlasiantaethol yw hwn sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio sut mae gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn Wrecsam yn cydweithredu a chydweithio i amddiffyn plant a sicrhau bod y trefniadau sy'n bodoli rhwng asiantaethau yn y sir yn dod â chanlyniadau cadarnhaol i blant.

Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn Wrecsam yn gweithredu dan Reoliadau'r Llywodraeth a ddaeth i rym yn 2005. Mae'r Rheoliadau hyn yn gofyn bod holl Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn sefydlu adolygiad achos difrifol pan fo cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau a phlentyn yn marw neu'n dioddef anaf a allai beryglu bywyd neu amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad.

Sefydlwyd yr adolygiad hwn o ganlyniad i anafiadau a ddioddefodd baban 18 diwrnod oed. Prif amcan yr adolygiad oedd nodi camau a allai gael eu cymryd i atal niwed tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, bwriad yr adolygiad oedd:

- penderfynu a oedd gwersi i'w dysgu o'r achos ynghylch sut mae gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau lleol yn cydweithio i ddiogelu plant;
- nodi'n eglur beth oedd y gwersi hynny, pa weithredu fyddai arnynt, a beth a ddisgwyliwyd fyddai'n newid o ganlyniad; ac, o ganlyniad:
    - nodi materion gweithio rhwng asiantaethau er mwyn diogelu plant yn well; a
    - nodi enghreifftiau o arferion da.

Gwnaed yr adolygiad dan y canllawiau yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.*

BRASLUN O'R ACHOS

Edrychodd yr adolygiad achos difrifol hwn ar achos baban 18 diwrnod oed oedd wedi dioddef anaf i'w ben yr honnwyd iddo gael ei achosi ar ddamwain tra'r oedd y tad yn ei fwydo. Gwelwyd y plentyn i ddechrau yn Adran Ddamweiniau ac Argyfwng yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth a'i ryddhau ar ôl archwiliad. Dychwelodd y rhieni'r plentyn i'r ysbyty yn ddiweddarach yr un diwrnod am nad oedd ei gyflwr wedi gwella. Ar yr adeg hon, derbyniwyd y plentyn i'r ysbyty a dangosodd ymchwiliadau meddygol dilynol yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ac mewn Ysbyty Plant Arbenigol bod gan y plentyn swigod gwaed enbyd dwyochrog islaw'r freithell dew a gwaedlif rhwydennol a ystyriwyd oedd o ganlyniad i anaf annamweiniol. Arhosodd y plentyn yn yr ysbyty am 4 diwrnod, pryd y cafodd ei ryddhau i ofal gofalwyr maeth yr awdurdod lleol.

SUT Y GWNAED YR ADOLYGIAD ACHOS

Yn dilyn yr anafiadau i'r plentyn, cyfarfu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a chytuno y dylid cynnal adolygiad achos difrifol i edrych ar ymwneud asiantaethau â'r plentyn a'i deulu, gan ddechrau o'r cysylltiad cyntaf cyn geni â mam y plentyn ac yn dod i ben pan ryddhawyd y plentyn o'r ysbyty a'i letya gyda gofalwyr maeth yr awdurdod lleol.

Ffurfiwyd y panel adolygu achos difrifol o gynrychiolwyr Gwasanaeth Gwladol Iechyd y Cyhoedd; Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru, Rhanbarth Dwyreiniol (Ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru gynt); Adran Ddiogelu a Chefnogi Wrecsam o fewn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc; Heddlu Gogledd Cymru; Adran Gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; a Rhanbarth Dwyreiniol Gwasanaeth Profiannaeth Gogledd Cymru. I ddechrau roedd y panel dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Diogelu a Chefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac, o fis Chwefror 2009 ymlaen, gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Barnardo's Cymru. Y rheswm dros newid cadeirydd oedd dod â mwy o annibyniaeth i'r drefn adolygu, yn unol ag un o argymhellion ymholiad Baban P.

Roedd gofyn i'r holl asiantaethau oedd wedi ymwneud â'r plentyn a'i deulu gynhyrchu cronoleg o'u cyfranogiad, ynghyd ag adroddiad yn dangos agweddau allweddol ar yr ymwneud hwnnw. Yna defnyddiwyd y cronolegau ac adroddiadau fel sail i adroddiad trosolwg a luniwyd gan awdur annibynnol a benodwyd gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Anfonwyd yr adroddiad llawn, oedd yn cynnwys 4 argymhelliad a chynllun gweithredu, at Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 25ain Mai 2009.

MATERION YN CODI O'R ADOLYGIAD ACHOS

Cyn yr anafiadau a arweiniodd at dderbyn y plentyn i'r ysbyty, nid oedd dim yn hysbys i'r gweithwyr iechyd proffesiynol oedd yn ymwneud â'r teulu i ddangos bod unrhyw achos pryder ynghylch iechyd, datblygiad na lles y plentyn.

Er y cofnodwyd gwybodaeth i nodi y gallai cefndir tad y plentyn danseilio ei allu i fagu plant, nid oedd y wybodaeth honno ar gael i staff iechyd ar yr adeg yr archwiliwyd y plentyn yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth a'r Ysbyty Plant Arbenigol.

Un o nodweddion diddorol yr achos hwn yw mai gweithwyr iechyd proffesiynol oedd yr unig rai i fod â chysylltiad â'r plentyn a'i rhieni o adeg yr ymweliad cyntaf cyn geni â'r adeg pan dderbyniwyd y plentyn i'r ysbyty gydag anaf i'r pen yn cael ei amau. O ganlyniad, yn yr achos hwn, doedd dim un o'r anawsterau cyfathrebu rhwng asiantaethau sy'n aml i'w gweld mewn adolygiadau achosion difrifol. Nid oedd chwaith unrhyw fylchau cyfathrebu amlwg rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol oedd yn ymwneud â'r plentyn a'i rieni.

Yr un peth yn peri pryder yn yr achos hwn oedd, pan archwiliwyd y plentyn am y tro cyntaf yn Adran Ddamweiniau ac Argyfwng yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, nad

ystyriwyd y posibilrwydd y gallai ei anafiadau fod wedi cael eu hachosi heblaw ar ddamwain. O ganlyniad, rhyddhawyd y plentyn o'r ysbyty heb weld pediatregydd a, phe byddid wedi ymgynghori â phediatregydd bryd hynny, y tebygolrwydd yw na fyddai'r plentyn wedi cael ei ryddhau. O dderbyn y diagnosis dilynol o anaf annamweiniol, roedd rhyddhau'r plentyn dilyn yr archwiliad yn yr Adran Ddamweiniau ac Argyfwng wedi'i roi mewn perygl o niwed ychwanegol.

Yn dilyn rhyddhau'r plentyn o'r ysbyty, dychwelodd ei rieni ef i'r ysbyty'n ddiweddarach yr un diwrnod am eu bod yn bryderus nad oedd ei gyflwr yn gwella. Bryd hynny, cafodd y plentyn ei dderbyn i'r ysbyty a'i gadw dan arsylw agos nes iddo gael ei ryddhau i ofal gofalwyr maeth yr awdurdod lleol 4 diwrnod yn ddiweddarach.

Er yr ystyriwyd anaf annamweiniol pan welwyd y plentyn gan bediatregydd ymgynghorol yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, roedd digon o amheuaeth ynghylch achos anafiadau'r plentyn i gyfiawnhau profion ychwanegol a dim ond ar ôl ei gyfeirio i'r Ysbyty Plant Arbenigol y cadarnhawyd anaf annamweiniol. Dyma'r adeg y defnyddiwyd y trefnau amddiffyn plant a, thra gallent fod wedi cael eu defnyddio'n gynharach yn y broses, nid oedd unrhyw berygl y byddai'r plentyn yn cael ei dynnu o'r ysbyty gan ei rieni tra'r oedd ymchwiliadau meddygol yn cael eu cynnal.

Ochr yn ochr â'r pryderon yn yr achos hwn, roedd enghreifftiau o arferion da hefyd, fel a ganlyn:

1. Yn dilyn genedigaeth y plentyn, roedd y gwasanaeth bydwreigiaeth a'r gwasanaeth ymweliadau iechyd o safon uchel;

2. Dangosodd y Gwasanaeth Ambiwlans arferion diogel a gorau wrth fynd â'r plentyn i'r Adran Ddamweiniau ac Argyfwng yn dilyn galwad frys y rhieni;

3. Pan hysbyswyd y pediatregydd ymgynghorol bod y sgan CT wedi dangos gwaedlif dwyochrog islaw'r freithell dew, trefnodd drosglwyddiad i'r Ysbyty Plant Arbenigol i ymchwilio ymhellach;

4. Roedd safon cadw cofnodion iechyd a welwyd yn yr adolygiad o safon uchel yn gyffredinol a heb beri pryder;

5. O'r adeg y gwnaed cyfeireb amddiffyn plant, deliwyd â'r mater hwn mewn ffordd amserol a phriodol;

6. Gwnaed holl wiriadau perthnasol a chwblhawyd dogfennau'n brydlon, yn gywir ac yn drwyadl ar y ffeiliau electronig a phapur;

7. Unwaith y cadarnhawyd pryderon amddiffyn plant, mae tystiolaeth dda o asiantaethau'n cydweithio, yn rhannu gwybodaeth ac yn cytuno pa gamau i'w cymryd i ddiogelu'r plentyn.

ARGYMHELLION

Gwnaeth yr adolygiad 4 argymhelliad, pob un ohonynt â goblygiadau i arferion. Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi derbyn yr argymhellion hyn a'u hymgorffori mewn cynllun i'w weithredu dros y 3 mis nesaf.

Mae'r argymhellion a wnaed fel a ganlyn:

1. Dylid adolygu'r Siart Llif Amddiffyn Plant sy'n cael ei ddefnyddio gan yr Adran Ddamweiniau ac Argyfwng a rhoi copi ohono i holl staff a hyfforddeion iechyd pan fyddant yn dechrau gweithio ar yr Adran Ddamweiniau ac Argyfwng;

2. Dylai Adran Bediatrig yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth weithredu'r Safonau newydd ar Ymchwiliadau Radiolegol pan fo Anaf Annamweiniol yn Cael ei Amau (Coleg Brenhinol y Radiolegwyr a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Mawrth 2008);

3. Dylid adolygu cynnwys asesiadau cyfannol i sicrhau eu bod yn rhoi cyfleoedd i nodi ffactorau hanesyddol a allai danseilio magu plant;

4. Dylid atgoffa holl staff ymweliadau iechyd / bydwreigiaeth o'r gofyniad i gynnal asesiadau iechyd cyfannol yn y cyfnod cyn geni.